

Dyddiadur WAW (Wraig ar Wahoddiad)

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am ganiatáu i mi fynd gyda fy ngŵr Brian i CEC (Cynhadledd Cristnogion Ewropeaidd) yn Novi Sad, Serbia. Roedd yn ffrainc ac yn brofiad cofiadwy a phleserus. Roedd yn dda bod dau deithiwr amharod yn cael wynebu 4 taith ar awyren gyda'i gilydd!

Dyddiadur heb fod yn ddyddiadur

Er i mi ddweud mai dyddiadur yw hwn y gwir yw y byddai angen llawer mwy o eiriau nag a ganiateir pe byddwn yn ceisio cynnwys adroddiad dydd wrth ddydd o'r achlysur. Felly, beth a wnaif yw ceisio rhoi blas i chi yn unig o awrygylch y gymanfa gan ganolbwyntio ar yr elfennau hynny oedd fwyaf ystyrlon i mi.

Thema'r Gymanfa

Thema'r wythnos oedd, 'Byddwch yn dystion i mi...'

Bob dydd yr oeddem yn canolbwyntio ar themâu gwahanol. Lletygarwch, Cyfiawnder, Gobaith a Thystiolaeth. Cyflwynwyd y themâu gan brif siaradwyr

(oedd yn cynnwys Justin Welby) astudiaethau Beiblaidd efo amser i fyfyrto, gweithdai ac amserau o addoliad. Roedd hyn oll yn digwydd mewn pump o ieithoedd, Serbaidd, Ffrangeg, Rwsieg, Almaeneg a Saesneg. Cyfieithwyd bob un o'r gweithgareddau i'r ieithoedd yma. Felly bydd dwy iaith y Gymanfa Gyffredinol yn rhwydd!

Saesneg oedd brif iaith yr achlysur ac roedd parodrwydd mynychwyr y gynhadledd i ddefnyddio Saesneg safonol a rhugl yn peri i mi fod yn amharod i fentro defnyddio fy Ffrangeg rhydlyd a'm Halmaeneg, oedd yn fwy rhydlyd byth!

Gobaith a her

Fel y byddwn wedi disgwyl roedd gan bob un o'r siaradwyr negeseuon positif a heriol. Roedd yn galonogol i feddwl fod cenedl fechan fel gwlad Groeg yn medru croesawu gymaint o ffoaduriaid oedd yn dod i wlad 'Gristnogol' am y tro cyntaf. Hwn oedd y tro cyntaf i'r

(parhad ar dudalen 2)



Mrs Beryl Matthews a'r Parch Brian Matthews sy'n ddarpar lywydd y Gymanfa Gyffredinol.

Dwyn tystiolaeth yn fyd-eang ac yn lleol

Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Cynhaliwyd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron ar ddydd lau 17 Mai. Daeth cynulleidfda dda ynghyd a chafwyd croeso arbennig gan chwiorydd Bwlchgwynt, y gweinidog, y Parchedig Carwyn Arthur a swyddogion yr eglwys. Cafodd hanes a diwylliant cyfoethog yr ardal ei gofnodi ar ddalen gefn y rhaglen ac yng nghyfarfod y prynhawn canwyd emynau oedd â chysylltiad â'r ardal, gan gynnwys geiriau emyn a gyfansoddwyd gan William Williams Pantycelyn o dan goeden derwen fferm Tanrallt, Tregaron. (Rhif 435 yn yr hen Lyfr Emynuau a Thonau).

Merched ddaeth wyneb yn wyneb â Iesu

Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Iola Alban, Llywydd pwyllgor cenhadol Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd

Penfro ac aelodau lleol arweiniodd y defosiwn. Catherine Hughes oedd arweinydd y gân a'r organydd oedd Alis Jones. Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod y prynhawn oedd Dr Menna Machreth Llwyd sydd yn gweithio i

Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Testun yr anerchiad oedd yn seiliedig ar y darlleniad am Iesu a'r wraig o Samaria oedd *Rhyddid i fyw: merched ddaw wyneb yn wyneb ag Iesu*. Cyfeiriodd at

(parhad ar dudalen 8)



Chwiorydd a gyfrannodd i gyfarfod y prawn

Gwyddoniaeth a Chrefydd

Mae perthynas 'Duw â'r byd' yn fater o bwys i bob un ohonom. Ac yn gyson clywir gan rai bod gwyddoniaeth a chrefydd yn eu hanfod yn wrthwynebus i'w gilydd. Mae'r Parch Ddr Diane Sterling wedi gweithio gyda'r 'ddwy-blaid'. Ac mae wedi cytuno gyfrannu ysgrifau achlysurol i'r Goleuad am wyddoniaeth ac am ddarganfyddiadau gwyddonol. Yn yr ysgrif gyntaf mae'n dweud ychydig am ei harbenigedd gwyddonol ac yn codi'r llen ar y wefr a geir o ddarganfod rhywbeth am y tro cyntaf.

Rwyf wedi colli cownt ar y nifer o droeon bod rhywun wedi dweud wrthyf, 'Sut allwch chi gredu mewn Duw a bod yn wyddonydd ar yr un pryd?'

Ond rwy'n gweld bod y ddau yn sefyll ochr yn ochr â'i gilydd. Crëwyd y byd gan Dduw ac mae o'n datguddio ei gyfrinachau i ni, gam wrth gam, wrth i ni weithio gyda'n gilydd.

Cefndir Personol

Gwnes i radd yn gyntaf mewn cemeg ac yna doethuriaeth mewn catalysis ym Mhrifysgol John Moores rhwng 1977 a 1984. Ar ôl hynny, treuliais y rhan fwyaf o'm gyfwrdd wyddonol yn gwneud ymchwil ym maes catalysis a chemeg cyflwr solet. Gweithiais yn y diwydiant ar y dechrau ac wedyn ym Mhrifysgol Caerfaddon fel ymchwiliwr ac ym Mhrifysgol Glasgow fel darlithydd.

Ym maes catalysis, er enghraifft, gweithiais fel rhan o dîm oedd yn gwneud ymchwil i geisio cynhyrchu cemegion oedd yn ddefnyddiol i



ddiwydiant cemegol gan ddefnyddio catalyddion heterogenaidd i reoli'r adweithiau. (Roedd y catalyddion heterogenaidd yn cynnwys cyfansoddion metelau neu fetelau eu hunain a gafodd eu bondio i gynhaliad fel silica neu alwmina). Gwnaethpwyd arbrofion gyda chatalydd solet ac adweithyddion mewn hylifau addas. Lliferiwyd nwy fel nitrogen neu hydrogen drwy'r cymysgedd. Rheolwyd y cyflyrau hywaith fel tymheredd yn ofalus yn ystod bob arbrawf. Felly gweithiem mewn tair gwedd.

Dyddiadur WAW (parhad)

Cynghrair Efynglaidd a'r Eglwys Unionged gydweithio a chyd-weddio wrth iddynt groesawu 'dieithriaid' yn enw lesu.

Profodd Armenia chwyldro heddychlon yn ddiweddar ac mae Cristnogion yn Syria yn gobeithio am atgyfodiad yn y bywyd hwn.

Roedd themâu'r gynhadledd yn gorgyffwrdd a'i gilydd wrth i ni sylweddoli bod haelioni Duw tuag atom ni wedi ei sbwylio gan ein hunanoldeb barus; mae angen cyfiawnder er mwyn cyflwyno neges effeithiol am obaith i'r byd.

Neges gan ieuencid

Derbyniwyd neges gre gan Gymanfa'r Ieuencid am yr angen i groesawu amrywiaeth, i adeiladu pontydd gyda phobl wahanol, am yr angen am ryddid i ni ymarfer ein ffydd ac er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar faterion yn ymwneud â'n cynefin a'n hamgylchfyd.

Uchafbwyntiau

Clymwyd pob elfen o'r Gymanfa ar sylfaen o addoliad – yn y bore, amser cinio ac yna gyda'r hwyr. Roedd yr addoliad hwyrrol yn gymharol fyr.

Addoli yn yr awyr agored oedd un o uchafbwyntiau'r achlysur i mi. Ar y noson gyntaf cawsom gyfle i addoli yn sgwâr y dre cyn cael mwynhau pryd bys a bawd i bawd oedd wedi ymuno – nid dim ond aelodau'r Gymanfa. Croesawyd tua 600 o bobl mewn ffordd real iawn.

Yr ail achlysur oedd y tro lle cawsom gyfle i weddio ar lan afon Donwy gerllaw man lle cafodd 1,000 o lldewon, Roma a Serbiaid eu lladd yn 1942 cyn eu taflu i'r afon islaw. Cawsom gyfle i gerdded ar hyd lan afon Donwy at bont newydd a adeiladwyd yno ac yno cafodd coed olewydd eu plannu fel arwydd o fywyd newydd.

Ond efallai y rhan orau i mi oedd cael sgwrsio a rhannu gyda Christnogion o wahanol wledydd, o wahanol enwadau a chanfod fod gennym gymaint yn gyffredin.

Do, fe gawsom ein galw i fod yn dystion.

Fel dywedodd Karl Lehmann 'Bydd Cristion y dyfodol yn dyst, neu fe beidia â bod.'

Beryl Matthews, Wrecsam

** (Efallai y dylid egluro mai'r Parch Brian Matthews fydd Llywydd y Gymanfa Gyffredinol o 2018-2019)

Nod y gwaith oedd rhoi cynnyrch yr adwaith mewn canran uchel a chyflyrau mwyn, heb gollu'r catalydd i'r hylif. Yn y ffordd hon, gallem leihau costau cemegion a defnyddio llai o egni ac felly lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Weithiau, roedd hi'n bwysig rheoli'r actiffedd optegol. Dim ond un enantiomer sydd ei angen. (Enantiomerau yw dau foleciwl sydd yn ddrychdelweddau fel eich llaw chwith a'ch llaw dde). Enghraifft glasurol o bwysigrwydd defnyddio enantiomer cywir yw thalidomide a ddefnyddiwyd gan ferched beichiog yn y 1950s i'w helpu nhw gydag anhwylder yn y bore. Cafodd nifer o blant eu geni gyda chamweithrediadau yn eu coesau neu eu breichiau. Darganfuwyd mai yr (S)-enantiomer oedd yn gyfrifol am y camweithrediadau, ond cynhyrchwyd cymysgedd y ddau enantiomer. Ond, efo thalidomide, hyd yn oed os 'dach chi'n gallu cynhyrchu dim ond y (R)-enantiomer mae o'n newid i'r (S)-enantiomer yn y corff. Yn sgil y digwyddiadau hyn, roedd mwy o ymchwil yn cael ei wneud cyn anfon cyffuriau i'r farchnad.

Yn y maes cemeg cyflwr solet, roeddwn yn dylunio deunyddiau i amsugno llygryddion. Edrychem ar ddatblygu deunyddiau i amsugno cyfansoddion sylffwr fel hydrogen sylffwr o'r awyrgylch mewn amrywiaeth o feysydd. Er enghraifft, gweithiem efo'r Rijksmuseum yn Amsterdam i ddatblygu deunyddiau i rwystro arteffactau arian rhag cael eu llychwino. Mae gwrthrychau arian yn cael eu llychwino mewn amser hyd yn oed pan maent mewn cabinet sydd yn cael ei selio. Gallwch chi lanhau'r arteffactau drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol, ond mae hi'n cymryd llawer o amser ac yn anorfod yn eu niweidio nhw dros amser. Mae amsugniad nwyon sylffwr yn bwysig er mwyn cyfyngu llygredd aer a glaw asid.

Teimlwn bresenoldeb Duw gyda fi yn aml wrth wneud arbrofion. Teimlwn yn agos i Dduw pan ddarganfyddem rywbeth newydd fel adeiledd cemegol newydd neu ffordd newydd o wneud rhywbeth. Roedd hi'n fel pe baem yn cael rhannu cyfrinach gyda Duw.

Rwyf yn credu bod hi'n hanfodol i ni bwysu a mesur y manteision a'r anfanteision o ymchwil wyddonol. Caiff ymchwil ei defnyddio er gwell neu er gwaeth.

Fe gawn ni, fel Cristnogion a gwyddonwyr, gyfrifoldebau moesol i wneud yn siŵr y bydd ein gwaith yn gyson gyda dysgeidiaethau'r Beibl a'n ffydd. Felly rwyf yn meddwl na allwch wahanu crefydd oddi wrth wyddoniaeth. Mae Duw am rannu ym mhob agwedd o'n bywydau.

Parchedig Diane Stirling